**Pwllgor Datblygu Economaidd EDC 15-01(p2)**

***Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o'r Iaith Gymraeg / Cyflwyniad i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd***

***ymateb Menter a Busnes***

**Mae nodyn llawnach fel rhan o'r dystiolaeth yn amgaeëdig.**

**Prif Bwyntiau**

i. Beth yw'r cysylltiad rhwng yr economi â'r Gymraeg? Yn y gorffennol roedd argraff bod un yn achosi problemau i'r llall – yr iaith fel rhwystr i ddatblygu'r economi, a datblygu'r economi yn cael effaith negyddol ar yr iaith. Dengys profiad bod y cyswllt yn un mwy cymhleth ac amrywiol na hynny. Mewn Cymru sy'n newid yn gyflym y cwestiynau pwysig yw:

1. Sut gallwn ddefnyddio'r iaith a'r diwylliant fel ased i gyfrannu at wella'r economi?
7. Sut gall cryfhau'r economi gael effaith gadarnhaol glir ar yr iaith?

7. Fel mae Chwarae Teg wedi bod yn cynorthwyo i fanteisio ar botensial merched i ddatblygu'r economi yng Nghymru felly hefyd mae Menter a Busnes wedi bod yn gwneud gyda phobl sy'n siarad Cymraeg.

Am amryw o resymau mae'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn tueddu at weithio yn y sector cyhoeddus, mewn meysydd traddodiadol ac maent yn llai tebygol o'r hanner o ddechrau busnes. Felly roedd 500,000 o bobl yng Nghymru yn llai tebygol yn y gorffennol o greu mwy o swyddi.

Mae Menter a Busnes wedi bod yn datblygu ffyrdd i sbarduno siaradwyr Cymraeg i ddod yn fwy mentrus a gweithgar yn economaidd. Maent yn awr yn teimlo'n llai negyddol am wneud pethau eu hunain. Ond mae llawer o ffordd i fynd. Rydym angen creu ffyrdd ymarferol o adael i bobl i wireddu eu breuddwydion, a chreu mwy o weithgareddau mewn sectorau incwm uwch. Felly dyna ble mae Menter a Busnes yn symud o ganlyniad i lwyddiant y gwaith cychwynnol – fel rhan o'r jigso datblygu economaidd yng Nghymru – rhan fechan ond un a all wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

7. Yn y gorffennol adnoddau ffisegol a chyfalaf traddodiadol oedd prif os nad yr unig ffactorau mewn datblygu economaidd. Wrth edrych i'r dyfodol mae'n amlwg bydd bobl Cymru fel adnodd yn elfen llawer pwysicach nag yn y gorffennol wrth greu mantais

economaidd. Felly mae datblygu adnoddau bobl gan gynnwys eu sgiliau cyfathrebu ieithyddol yn gynyddol bwysig.

O gyfuno’r tueddiad hwn gyda newid technolegol, bobl yn symudol, yr angen am cynaladwyedd, a’r fframwaith newydd mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) yn rhoi i ni – yna mae cyfle newydd i greu cyswllt rhwng yr economi â’r iaith Gymraeg sydd o fantais i’r ddau.

Yn ogystal â’r budd cyffredinol o integreiddio’r ddau, mae pob math o gyfleodd eraill yn bod:

Cyfrannu at ddatblygu’r Economi Wybodaeth

1. Cyfoethogi rhaglenni datblygu sectorau unigol
7. Gwasgaru budd economaidd trwy Gymru

1. Cyflawni’r broses o wella sgiliau
7. Sicrhau defnydd iaith manteisiol mewn sefyllfaoedd masnachol
7. Cryfhau delwedd Cymru
7. A.y.y.b

Credwn fod modd i’r holl asiantaethau datblygu economaidd (lleol a chenedlaethol) adeiladu’r broses o fanteisio ar ased y Gymraeg a’r diwylliant i mewn i’w gweithredu mewn ffordd sy’n cryfhau effaith y gweithredu hwn (gweler nodyn llawn 7.1).

Credwn hefyd bod modd yn ychwanegol i gyfuno ymdrechion y cyrff hyn i greu ffordd i drosi syniadau newydd i weithredu’n ymarferol – gan gydweithio gydag elfennau o waith Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae modd gwneud hyn heb greu sefydliad newydd (gweler nodyn llawn 7.2).

iv. Dyma fodel posib i Ffocws Ychwanegol (7.2)

Bydd angen o hyd ddiwallu anghenion cyffredinol a ddisgrifir (7.1)

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| - | | | **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** | | | | | — | | |
| | | | | | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| · | **WDA** | | **Cyfrwng**<br><br>**integredig ymarferol i ddatblygu a gweithredu**<br><br>**(gweler 7.2)** | | | |
| | | | | | | |
| · | **ELWa** | - | | | | |
| | | | | | | |
| · | **Llywodraeth Leol** | - | | - | **ByIG** | · |
| | | | | | | |
| · | **Bwrdd Croeso** | - | | | | |
| | | | | | | |
| · | **Gyrfa Cymru** | - | | | | |

v. Gobeithio bydd modd trafod y syniadau hyn fel rhan o'r ymgynghoriad.

**Hywel Evans, Menter a Busnes**

***Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o'r Iaith Gymraeg***

***- ymateb Menter a Busnes***

**Canolbwyntia'r ymateb hwn yn bennaf ar y thema o Ddatblygu Economaidd**

## Prif Bwyntiau

i. Beth yw'r cysylltiad rhwng yr economi â'r Gymraeg? Yn y gorffennol roedd argraff bod un yn achosi problemau i'r llall – yr iaith fel rhwystr i ddatblygu'r economi, a datblygu'r economi yn cael effaith negyddol ar yr iaith. Dengys profiad bod y cyswllt yn un mwy cymhleth ac amrywiol na hynny. Mewn Cymru sy'n newid yn gyflym y cwestiynau pwysig yw:

1. Sut gallwn ddefnyddio'r iaith a'r diwylliant fel ased i gyfrannu at wella'r economi?
7. Sut gall cryfhau'r economi gael effaith gadarnhaol glir ar yr iaith?

7. Fel mae Chwarae Teg wedi bod yn cynorthwyo i fanteisio ar botensial merched i ddatblygu'r economi yng Nghymru felly hefyd mae Menter a Busnes wedi bod yn gwneud gyda phobl sy'n siarad Cymraeg.

Am amryw o resymau mae'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn tueddu at weithio yn y sector cyhoeddus, mewn meysydd traddodiadol ac maent yn llai tebygol o'r hanner o ddechrau busnes. Felly roedd 500,000 o bobl yng Nghymru yn llai tebygol yn y gorffennol o greu mwy o swyddi.

Mae Menter a Busnes wedi bod yn datblygu ffyrdd i sbarduno siaradwyr Cymraeg i ddod yn fwy mentrus a gweithgar yn economaidd. Maent yn awr yn teimlo'n llai negyddol am wneud pethau eu hunain. Ond mae llawer o ffordd i fynd. Rydym angen creu ffyrdd ymarferol o adael i bobl i wireddu eu breuddwydion, a chreu mwy o weithgareddau mewn sectorau incwm uwch. Felly dyna ble mae Menter a Busnes yn symud o ganlyniad i lwyddiant y gwaith cychwynnol – fel rhan o'r jigso datblygu economaidd yng Nghymru – rhan fechan ond un a all wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

7. Yn y gorffennol adnoddau ffisegol a chyfalaf traddodiadol oedd prif os nad yr unig ffactorau mewn datblygu economaidd. Wrth edrych i'r dyfodol mae'n amlwg bydd bobl Cymru fel adnodd yn elfen llawer pwysicach nag yn y gorffennol wrth greu mantais economaidd. Felly mae datblygu adnoddau bobl gan gynnwys eu sgiliau cyfathrebu ieithyddol yn gynyddol bwysig.

O gyfuno'r tueddiad hwn gyda newid technolegol, bobl yn symudol, yr angen am cynaladwyedd, a'r fframwaith newydd mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) yn rhoi i ni – yna mae cyfle newydd i greu cyswllt rhwng yr economi â'r iaith Gymraeg sydd o fantais i'r ddau.

Yn ogystal â’r budd cyffredinol o integreiddio’r ddau, mae pob math o gyfleodd eraill yn bod:

Cyfrannu at ddatblygu’r Economi Wybodaeth

Cyfoethogi rhaglenni datblygu sectorau unigol

Gwasgaru budd economaidd trwy Gymru

Cyflawni’r broses o wella sgiliau

Sicrhau defnydd iaith manteisiol mewn sefyllfaoedd masnachol

Cryfhau delwedd Cymru

A.y.y.b

Credwn fod modd i’r holl asiantaethau datblygu economaidd (lleol a chenedlaethol) adeiladu’r broses o fanteisio ar ased y Gymraeg a’r diwylliant i mewn i’w gweithredu mewn ffordd sy’n cryfhau effaith y gweithredu hwn.

Credwn hefyd bod modd yn ychwanegol i gyfuno ymdrechion y cyrff hyn i greu ffordd i drosi syniadau newydd i weithredu’n ymarferol – gan gydweithio gydag elfennau o waith Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae modd gwneud hyn heb greu sefydliad newydd.

vi. Gobeithio bydd modd trafod y syniadau hyn fel rhan o’r ymgynghoriad.

7. **Perthynas Iaith a Economi**

    1. **Cyflwyniad**

Noda’r papur sy’n amlinellu ystod gwaith yr ymgynghoriaeth (Atodiad C) un o’r Rhwystrau Posib o dan y thema Datblygu Economaidd fel "methu deall fod datblygiad economaidd yn hanfodol i ddatblygiad iaith". Yn hytrach na diffyg dealltwriaeth o’r cysylltiad, tybiwn mai lefel arwynebol y dealltwriaeth hwn yw’r rhwystr pennaf – "Yn yr ardaloedd Cymraeg fe godwn ni ffatri, fe ddenwn ni gwmnïau – bydd jobs yna wedyn, a bydd yr iaith yn iawn!"

Yn "Rhagoriaeth Amrywiaeth – Iaith Diwylliant ac Economi mewn Ewrop Integredig" a gyhoeddwyd gan y Biwro Ewropeaidd yr Ieithoedd Llai nodir:

"Mae dau fyth gwrthgyferbyniol ond rhyng-gysylltiedig yn draddodiadol wedi cymylu'n dealltwriaeth ni o'r ddolen iaith-economi. Y cyntaf yw thesis 'moderneiddio' a fu'n ddylanwadol ond sydd bellach wedi ei danseilio, sy'n gweld amrywiaeth ieithyddol fel rhwystr i gynnydd economaidd. Cydberthynas seicolegol y safbwynt hwn ymhlith rhai ymgyrchwyr iaith yw amheuaeth ddofn o ddatblygu economaidd fel rhywbeth cynhenid gelyniaethus i les yr iaith maen nhw'n ceisio ei hachub.

Does gan y naill safbwynt na'r llall fawr o gysylltiad â realiti. Gall datblygu economaidd gael dylanwad cadarnhaol ar iaith, neu un negyddol, ac mae'r un peth yn wir am ddylanwadau diwylliannol-ieithyddol ar yr economi. Adlewyrchir y cymhlethdod yma yn amrywiaeth profiadau cymunedau ieithoedd llai eu defnydd yn Ewrop.

Mae'r rhan fwyaf o ranbarthau ieithoedd lleiafrifol Ewrop wedi eu lleoli yn y cyrion economaidd, ond does dim gwirionedd yn y syniad bod rhanbarth pob iaith leiafrifol 'ar ei hôl hi' yn economaidd. Yn hytrach, yr hyn sy'n ymddangos o ddadansoddi croes-ddiwylliannol hanesyddol a chyfredol yw patrwm o ddatblygu anwastad sydd wedi bod â gwahanol oblygiadau ar gyfer cynnal iaith ar wahanol adegau ac mewn gwahanol fannau." Rhaid cofio bod yng Nghymru cyswllt naturiol mewn sawl sector yn y gorffennol fel adeiladu cychod, glo, llechi – felly nid rhywbeth annaturiol yw'r cyd-berthynas yma.

Mae'r cyswllt felly yn un cymhleth – ond yn un arwyddocaol tu hwnt. Yn "Language Revitalization – Policy and Planning in Wales" a olygwyd gan Yr Athro Colin Williams, wrth ddisgrifio'r cyswllt yn Iwerddon nodir:

*"Furthermore, Ó Riagáin's (1997) study demonstrates that government initiatives in economic, social and regional planning spheres have more important effects on language patterns than do government language policies themselves."*

a

"*A belated concern with holistic language planning now characterizes the Irish experience. But for far too long it was assumed that dedicated language initiatives, based in part on good will and in part of a symbolic adherence to Irish as a token of national identity, would suffice. Too often in the literature related to lesser used languages, the Irish example is quoted as a missed opportunity, or as an illustration of how difficult it is for government top-down planning to initiate processes of language revitalization. The reality, of course, is far more complex and we accept Ó Riagáin's view that language policies 'cannot be treated as an autonomous, independent factor'."*

Yn yr awgrymiadau ar gyfer meysydd posib i’r dyfodol awgrymir:

*"To initiate practical strategies which will relate aspects of community language planning in a more focused manner than hitherto to economic and regional development programmes."*

Yn naturiol yn ystod y cyfnod diwethaf yng Nghymru mae’r pwyslais wedi bod (o’r persbectif iaith) ar y defnydd o’r Gymraeg. Ond yn gynyddol mae gwerthfawrogiad nad yw’n bosib gwahanu’r defnydd oddi wrth y bobl sy’n siarad yr iaith a’r holl ystod o ystyriaethau sydd ynghlwm â hynny. Erbyn hyn mae rhywfaint mwy o ddealltwriaeth o’r cyswllt, yn bennaf fel canlyniad i waith arloesol Menter a Busnes. Yn wir awgrymir nes ymlaen yn y papur hwn bod modd gweld dull o weithredu yn y dyfodol a allai ychwanegu gwerth tuag at ddatblygu economaidd a ieithyddol.

1. **Ystyriaethau daearyddol**

Un ystyriaeth allweddol yw’r berthynas rhwng yr iaith â ardaloedd daearyddol penodol. Nodir arwyddocâd ‘cadarnleoedd yr iaith’, ‘ardaloedd lle mae’r Gymraeg yn dal yn gryf’ a sawl disgrifiad arall yn y papur ymgynghorol. Mae’r cysyniad o ‘gymuned Gymraeg’ yn un allweddol i’r holl drafodaeth. Ond wrth ystyried y cysyniad heddiw rhaid cadw mewn golwg y newidiadau sy’n effeithio’r ‘ardaloedd Cymraeg’, yn ogystal â’r berthynas rhyngddynt â gweddill Cymru.

Bu pwyslais mawr yn Iwerddon ers dros ddeugain mlynedd ar ddatblygu economaidd penodol yn ardaloedd y Gaeltacht (a nodwyd fel yr ardaloedd mwyaf Gwyddelig eu hiaith ers 1926). Ond eto er yr holl ddatblygu a fu yn yr ardaloedd hyn mae’r cyswllt â chyflwr yr iaith Wyddeleg yn dal yn aneglur. Mae dirywiad ieithyddol mawr wedi bod yn ystod y cyfnod yn yr ardaloedd hyn (er y gallai o bosib wedi bod yn waeth heb y datblygiad). Yn sicr mae diffyg integreiddio polisi economaidd a ieithyddol wedi bod yn ffactor.

O ran y newidiadau sy’n effeithio ar ‘ardaloedd Cymraeg’ mae’r darlun cyffredinol yn hysbys (ail-strwythuro economaidd, mudo, ayyb). Ond yn ogystal â’r elfennau sy’n cael eu cydnabod yn gyffredinol mae hefyd angen cydnabod rhai ffactorau eraill:

1. Sut mae ystyr cymuned yn newid. Golyga’r cynnydd mewn symudoledd bod yr elfennau daearyddol traddodiadol wrth ystyried cymuned (y pentre yn bennaf) yn lleihau yn eu harwyddocâd. Erbyn hyn mae’r tebygrwydd rhwng bywyd gwledig a threfol yn cynyddu, gydag ystod o gymunedau gwahanol yn yr un ardal ddaearyddol. Yn sicr mae’r canfyddiad o gymuned i bobl ifanc yn newid yn gyflym iawn. Cynyddu yn eu harwyddocâd mae cymunedau neu rwydweithiau diddordeb – a rhaid eu defnyddio’n rhagweithiol yn y dyfodol.

Mae’r realiti o fyw yn yr ‘ardaloedd Cymraeg’ yn wahanol iawn i’r canfyddiad sydd gan bobl sydd ddim yn byw ynddyn nhw.

1. Y berthynas newydd rhwng Caerdydd â gweddill Cymru (ac efallai rhwng gwlad a thref yn ehangach). Does dim rhaid gweld y ‘ffactor Caerdydd’ fel un negyddol (fel mae llawer yn gwneud) – ond mae’n rhaid ei ystyried wrth gynllunio i’r dyfodol.

   Hefyd mae’r angen sydd gan bobl ifanc yn arbennig am fagnet cymdeithasol-economaidd yn ystyriaeth ag oblygiadau eang.

   Trafodir yr elfennau hyn ymhellach yn adran 4.

   Eto yn ‘Language Revitalization – Policy and Planning in Wales’ a grybwyllwyd eisoes, mae’r gymhariaeth â Gwlad y Basque yn ddiddorol.

   *"With the possibility of faster travel and the rapid spread of new forms of communication, Basque speakers are engaged in relationship networks which no longer necessarily have a local geographical basis. The question is how many of these networks can be reserved for Basque, alongside the more traditional domains."*

   Felly yn ogystal â’r cyswllt rhwng yr iaith â ardaloedd daearyddol penodol mae’r cyswllt â peuoedd (domains – h.y. meysydd diddordeb) penodol yn allweddol, yn arbennig yr un economaidd-gymdeithasol yn y cyd-destun hwn.

1. **Menter a Busnes**

   Ers 1989 mae Menter a Busnes (sy’n gwmni nid-er-elw) wedi bod yn anelu at ddatblygu ffyrdd y gall siaradwyr Cymraeg ddod yn fwy cynhyrchiol a gweithgar yn economaidd.

   Mae Cynllun Datblygu’r cwmni yn nodi:

   1. **"Pam y pwyslais ar siaradwyr Cymraeg?**

   Nid rhywbeth newydd mo’r syniad bod yna ddiffyg neilltuol o hyder economaidd o fewn y diwylliant Cymraeg. Ar sail gwybodaeth o’r Cyfrifiad Poblogaeth, nodwyd gan dîm o Goleg Prifysgol Aberystwyth nad oedd amheuaeth o gwbl bod cysylltiad ystadegol arwyddocaol rhwng y siaradwyr Cymraeg a’r di-Gymraeg â gweithgareddau economaidd. Nodwyd yn benodol y gor-ddibyniaeth ar y sector cyhoeddus, cryfder amaethyddiaeth, tan-gynrychiolaeth mewn rhai sectorau megis

gweithgynhyrchu ac ym maes rheolaeth, a chynnydd arafach mewn hunangyflogaeth. Nodwyd hefyd amrywiaethau rhanbarthol, yn arbennig rhwng de-ddwyrain Cymru a gweddill Cymru.

Cyfuniad o resymau strwythurol a sosio-ddiwylliannol sy'n gyfrifol am y patrwm gweithgaredd hwn. Ar yr un llaw, ceir dylanwad ffactorau allanol (e.e. cyfalaf, ffyrdd, adeiladau) sy'n gosod cyfyngiadau, yn gorfodi newid cyfeiriad neu agor cyfleoedd newydd, ac ar y llaw arall mae yna wead o ystyron sydd yn fframio canfyddiadau pobl o'r hyn sy'n bosibl neu'n ddymunol. Yn draddodiadol, bu tuedd bod datblygiad economaidd yn canolbwyntio ar y cyntaf, gan dalu ychydig iawn o sylw i allu'r dimensiwn dynol i sbarduno a rheoli newid economaidd.

I Fenter a Busnes, fodd bynnag, mae deall y cyd-destun seicolegol a diwylliannol cyn bwysiced â deall natur yr is-adeiledd economaidd lleol. Bu'r cwmni wrthi o'r cychwyn felly yn buddsoddi'n helaeth mewn ymchwil agweddol, gan ddefnyddio amryw ddulliau er mwyn hybu gwell dealltwriaeth o'r maes a hynny'n sail i weithgareddau datblygu arloesol ac i raglenni gweithredol manwl.

Mae arolygon diweddar yn awgrymu bod agweddau siaradwyr Cymraeg yn newid. Er hynny, y cam cyntaf yn unig yw newid agweddau.

**Yn ystod y degawd nesaf bydd yn rhaid i newidiadau agweddol droi yn weithgaredd economaidd newydd er mwyn sicrhau ymddygiad entrepreneuraidd**. Bydd angen i hyn ffurfio ffocws ymdrechion Menter a Busnes am y blynyddoedd i ddod.

(I rai bobl mae unrhyw fath o ymyrraeth yn llif yr economi cynyddol byd-eang yn amhosib. Tra'n cydnabod bod angen i lywodraeth a'r sector gyhoeddus yn gyffredinol fod yn realistig yngln â beth mae'n gallu'i gyflawni; mae peidio gweithredu o gwbl yn gwneud gwaith CCC, WDA, ELWa a phawb arall yn ddi-ystyr. Mae hefyd yn dibrisio arwyddocâd cynyddol adnoddau bobl yn y broses economaidd.)

1. **Atgynhyrchu profiad Menter a Busnes gyda'r di-Gymraeg**

Eisoes mae rhywfaint o brofiad Menter a Busnes wedi bod yn ddefnyddiol i sefyllfaoedd y di-Gymraeg/dwyieithog. Defnyddir Cwysi (y rhaglen ar gyfer teuluoedd amaethyddol) yn fwy cyffredinol mewn ardaloedd gwledig erbyn hyn. Cafodd Swyddiaduron rhaglen Gorwelion (gorwelion gyrfaoedd) eu mabwysiadu gan nifer o Gwmnïau Gyrfaoedd fel adnoddau cyffredinol defnyddiol. Mae'r dull i ddatblygu entrepreneuriaeth hefyd wedi bod yn hanfodol i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Menter dros Gymru.

(* Ceir mwy o wybodaeth ar www.menterabusnes.com).

### 1.3.3. Y Jigso Datblygu Economaidd

Dylanwadir ar economi unrhyw ranbarth yn gymaint gan ei bobl â chan ei adnoddau naturiol, ei leoliad neu ei gyfalaf. Bellach, mae darganfod ffyrdd effeithiol o gynyddu neu wella ansawdd gweithgaredd economaidd pobl, yn arbennig y carfanau hynny sy'n tan-berfformio, yn tyfu'n thema arwyddocaol ym maes datblygu.

Rhaid cydnabod yr anhawster o ddiffinio'r 'entrepreneur/mentrydd' yn foddhaol. Mae'n llawer mwy defnyddiol sôn am ymddygiad mentrus y gall pob un ohonom ei arddangos - yn y gweithle, fel buddsoddwyr yn ogystal ag mewn sefyllfa fusnes.

Bydd cynyddu gallu pobl i ymddwyn yn fentrus mewn gwahanol sefyllfaoedd yn cynnig dimensiwn arwyddocaol arall i Gymru yn yr ymgais i gryfhau ei heconomi. Ni ellir datblygu Economi Wybodaeth fel arall. (Sefydlwyd Menter a Busnes gan gyfuniad o'r prif asiantaethau datblygu economaidd gyda chefnogaeth y Swyddfa Gymreig). Ceisia Menter a Busnes arwain y broses o drosi'r syniad hwn y weithred fel rhan allweddol o'r jigso datblygu economaidd yng Nghymru sy'n cynnwys asiantaethau statudol, awdurdodau lleol, cyrff hyfforddi, asiantaethau menter, partneriaethau rhanbarthol, ac eraill.

Mae natur y gwaith a grybwyllir uchod yn amlwg yn ganolog i agenda sawl sefydliad (ADC, ELWa, Bwrdd Croeso Cymru, Gyrfa Cymru) ac wrth gwrs i'r CCC a'r Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol.

Mae gan gyrff fel Menter a Busnes ffocws clir iawn, y gallu i weithredu'n flaengar, i fod yn agos iawn i'w marchnad, ac i ychwanegu gwerth sylweddol, a bydd angen sicrhau gofod i weithredu yn yr un modd yn y dyfodol neu gall y broses gyfan golli llawer o'i heffeithiolrwydd a'i momentwm.

### 1.3.4. Y llwyddiant hyd yma

Mae'n amlwg erbyn hyn bod newid agweddol mawr tuag at fusnes a hyder economaidd yn gyffredinol yn digwydd ymysg siaradwyr Cymraeg. Mae'r ystod gwaith anferth a gwblhawyd gan Menter a Busnes yn dwyn ffrwyth a gwelir yr hen ddiffygion o ran modelau rôl a hyder yn diflannu. Mae cam diweddaraf yr ymchwil agweddol (a gwblhawyd yn 1999) yn cadarnhau bod y gagendor yn nhermau menter a busnes rhwng hyder siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg (fel dau grp cymharu) wedi diflannu a bod amryw o arwyddion positif yn dod i'r golau at y dyfodol. Prif ganlyniadau Agweddau at Fusnes: Adroddiad Ymchwil 1999 (Ymchwil Beaufort) oedd:

"… Mae brwdfrydedd cyffredinol tuag at fusnes a hunangyflogaeth wedi gostwng ymhlith y di-Gymraeg dros yr wyth mlynedd diwethaf tra ni chanfyddir bod tuedd felly ymhlith siaradwyr Cymraeg. Os rhywbeth, datblygodd siaradwyr Cymraeg agwedd fwy cadarnhaol tuag at hunangyflogaeth mewn rhai ystyron ers 1991."

Y dasg yn y dyfodol fydd cadarnhau'r hyder cynyddol hwn a gwyrdroi'r newid agwedd nes ei fod yn newid ymddygiad.

Fel rhan o'r un gwaith gwnaed adolygiad o'r mudiadau a weithiodd mewn partneriaeth â Menter a Busnes ar nifer o faterion a chyfeiriadau at y dyfodol.

Prif bwysigrwydd barn yr adolygiad oedd ei fod yn eithriadol bositif yn nhermau agwedd ac effeithlonrwydd (yng ngeiriau'r partneriaid):

- "Roedd safon y gwasanaethau a gyflawnwyd gan staff parhaol Menter a Busnes yn uchel iawn …"
- "Mae'r proffesiynoldeb yn rhagorol. Cefais argraff neilltuol o bawb a gwrddais ym mhob ffordd …"
- "Un o'r mudiadau a wnaeth yr argraff fwyaf arnaf a welais yng Nghymru. Mae ganddynt weledigaeth glir o'r hyn yw eu pwrpas a gallant ei drosglwyddo yn weithgareddau sy'n canolbwyntio'n glir …"
- "… Y farn gyffredinol oedd bod Menter a Busnes wedi bod yn llwyddiannus … roedd y mwyafrif a ymatebodd yn credu'n wirioneddol bod Menter a Busnes wedi gwneud gwahaniaeth …"
- "Mae Menter a Busnes wedi cyfrannu at yr hyder newydd …"
- "Rydym wedi canfod eu bod wedi gwneud pethau defnyddiol - achos, mae'n debyg, bod pethau real wedi dilyn, pethau y gallwch chi eu defnyddio, fel y gêmau a'r cyfeiriaduron. Mae hynny'n well na dim ond siarad am broblemau, fel bydd y mwyafrif yn ei wneud."
- "O'i ystyried ochr yn ochr â chanlyniadau'r ymchwil rhifol, mae'r darlun sy'n dod ohono yn gadarnhaol iawn. Mae'r newidiadau yn amgyffred ac agweddau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru wedi bod yn gadarnhaol ac yn arwyddocaol".

Yn ogystal â'r ystod o waith a gwblhawyd i gyrff eraill yng Nghymru, mae gweithgareddau diweddar y cwmni ei hun wedi cynnwys:

Cynllun CWYSI (prosiect sy'n anelu i gynyddu gweithgaredd economaidd teuluoedd fferm)

- Cynghorwyd 5069 o fusnesau fferm
- Cynghorwyd 1743 o fusnesau nad yn gysylltiedig â'r byd amaeth

- Sefydlwyd 128 o fentrau
- Ffurfiwyd 93 o weithgareddau grp
- Crëwyd / diogelwyd 3199 o swyddi
- Cynhyrchwyd £1,198,103 o fuddsoddiad sector preifat

**Cynllun GORWELION – ehangu gorwelion gwaith siaradwyr Cymraeg a hybu defnydd y Gymraeg mewn gwaith**

1. Rhestrwyd bron 900 o gyflogwyr yn y Swyddiaduron
7. Cafwyd cyswllt uniongyrchol gyda 10,270 o ddisgyblion ysgol ac yn anuniongyrchol gyda 44,750 o ddisgyblion ysgol yn ychwanegol
7. Cyswllt gyda 117 o ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach
7. Cyswllt uniongyrchol gyda 2700 o rieni pobl iainc a gyda dros 20,000 yn anuniongyrchol fel rhan o'r Cynllun Rhieni

CROESAWIAITH (Sefydlwyd cynllun Croesawiaith er mwyn cryfhau'r cyswllt rhwng yr iaith Gymraeg, y diwylliant Cymreig a'r diwydiant twristiaeth

1. Cyflwynwyd hanfodion y rhaglen i 1500 o bobl
7. Darparwyd cyngor/cefnogaeth i 80 o fusnesau
7. 200 o fusnesau yn cyfranogi i 'Cwlwm Croeso Cymru'
7. Cyhoeddwyd 40,000 copi o'r llyfryn 'Croeso Cymru'

**Sefydlwyd gwefan www.welshwelcome.com**

Roedd y gwaith yma yn ychwanegol i'r cynlluniau ym meysydd gwasanaethau busnes, addysg, a'r cyfryngau, a gwaith ehangach fel rhan o raglenni cenedlaethol.

**Ceir manylion llawn am weithgareddau ar www.menterabusnes.com.**

### 1.3.5. Nodau

Cenhadaeth Menter a Busnes yw: "Cynyddu gweithgaredd economaidd siaradwyr Cymraeg er lles yr economi yng Nghymru." Ceisia Menter a Busnes sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cyfrannu'n llawn i feysydd busnes, cyflogaeth a chymuned drwy gynyddu'n sylweddol y nifer sy'n:

- Sefydlu mentrau newydd mewn amrywiaeth eang o sectorau
- Datblygu cwmnïau sy'n bodoli eisoes
- Buddsoddi mewn busnesau
- Gweithio mewn ac yn rheoli cyrff o bob math
- Ysgogi gweithgaredd economaidd yn y gymuned

ac yn y tymor hir, sy’n creu cymunedau byw a hyderus a fydd yn cynllunio ac yn cyfrannu at eu dyfodol economaidd eu hunain, gyda phobl yn arddangos agweddau mentrus ac yn ymateb yn greadigol i her newid.

Bydd Menter a Busnes yn parhau i weithio mewn partneriaeth gydag amrywiol gyrff:

- I ddatblygu a gweithredu technegau a rhaglenni newydd yn gyson sy’n ychwanegu gwerth i’r broses ddatblygu economaidd
- I gydweithio gyda chyrff lleol mewn rhai ardaloedd penodol lle mae yno anghenion arbennig gan integreiddio’r holl weithgaredd sydd ar gael yn lleol er mwyn sicrhau’r effaith gorau posibl.
- Anelu at sbarduno ‘sefydliadau’ neu fentrau masnachol newydd yn y sectorau preifat a chyhoeddus.

### 1.3.6. Cyfnod newydd

Mae’r cwmni wedi bod ar y blaen o ran datblygu technegau i newid agweddau pobl tuag at entrepreneuriaeth. Yn wir fe fu’r profiad hwn yn werthfawr o ran gweithredu’r elfen yn y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth ar hyrwyddo diwylliant entrepreneuraidd.

Gan i ni weld cynnydd amlwg wrth ennyn agweddau mwy cadarnhaol ymhlith prif grwp targed Menter a Busnes mae’n awr yn bryd i ni symud at y cam pwysig nesaf mewn datblygu – mewn dwy ffordd.

**Yn gyntaf,** mae symud ymlaen o deimlo yn fwy positif am fenter tuag **at fentro mewn gwirionedd** (er enghraifft, cychwyn busnes) yn galw am fwy na chynnig gwasanaethau cychwyn busnes, gan na fyddai’r mwyafrif o bobl yn cyrraedd y cam o ddweud "Dwi’n mynd i wneud hynny!" Dros y tair blynedd nesaf felly bydd pwyslais cynyddol ar ddatblygu a chyflwyno gweithgareddau a fydd yn symud mwy o bobl at y llinell gychwyn (boed hynny i gychwyn busnes, datblygu busnes, cyfrannu at weithredu yn y gymuned, buddsoddi mewn modd entrepreneuraidd, neu beth bynnag). Bydd y broses gyntaf yn cael ei datblygu gan y Ffatri Fenter – sydd eisoes yn cychwyn. Fel gyda phob elfen o weithgaredd bydd profiad yn cael ei rannu i eraill wrth iddo ddatblygu.

**Yn ail,** mae angen i Menter a Busnes ei hun gydnabod ei rôl fel chwaraewr economaidd wrth **ddatblygu gweithgaredd masnachol uniongyrchol a rhagweithiol**. Bu sefydlu Newidiem fel is-gwmni yn brofiad arbennig o ddefnyddiol – nid yn unig o ran cyfrannu at allu ariannol y cwmni i gynnig mwy o weithgareddau, ond fel gwers mewn datblygiad masnachol rhagweithiol.

Busnes gwybodaeth yw Newidiem sydd wedi sicrhau bod peth o’r gwariant gwerth-uchel ar ymgynghori ar ddatblygiad economaidd wedi aros yng Nghymru yn hytrach na’i fewnforio (cymryd lle mewnforio). Mae hefyd wedi dechrau gwerthu gwasanaethau tu allan i Gymru (allforio).

Trwy weithgareddau o’r fath mae Menter a Busnes ei hun wedi adeiladu ei allu i ddatblygu yn uniongyrchol, ar y cyd gyda’r sector preifat, fathau newydd o weithgareddau gwerth uchel cysylltiedig â gwybodaeth y mae Cymru eu hangen na fyddai yn digwydd yn naturiol. Felly dros y tair blynedd nesaf bydd Menter a Busnes yn ceisio defnyddio ei adnoddau cymedrol ei hun (h.y. nid cyllid gan ffynonellau allanol) mewn modd a all gynorthwyo gweithgareddau gwerth uchel newydd yn uniongyrchol, gweithgareddau na fyddai’n digwydd fel arall efallai.

**Yn olaf** bydd y cwmni yn falch o **gydweithio gydag unrhyw brosesau sy’n ymddangos yng Nghymru sy’n edrych ymlaen yn rhagweithiol i sicrhau bod potensial y dyfodol yn cael ei wireddu’n llawn**, yn hytrach na dim ond dal i fyny ag eraill fel yn y gorffennol. Mae angen dirfawr am swyddogaeth ‘Futures’ barhaol yng Nghymru, ac mae arwyddion o ymwybyddiaeth gynyddol o angen o’r fath."

1. **Fframwaith wybodaeth a dealltwriaeth**

Er y gwaith sydd wedi gwneud eisoes gan llawer o sefydliadau mae llawer iawn o ffordd i fynd:

1. I ddatblygu dealltwriaeth gyfansawdd o’r cyswllt rhwng economi a iaith
7. I gysylltu ac integreiddio gweithgaredd â’r fframwaith datblygu economaidd (Strategaeth Ddatblygu Economaidd Cenedlaethol) â’r cyrff gweithredol (WDA, ELWa, Awdurdodau Lleol, Gyrfa Cymru, Bwrdd Croeso, ayyb).

7. **Newid diweddar a thueddiadau i’r dyfodol:**

Mae symud ymlaen wedi bod dros y 20 mlynedd diwethaf (fel y nodwyd eisoes) o ran gwireddu’r cyswllt rhwng yr iaith, y diwylliant a’r economi. O ran y defnydd a delwedd yr iaith o fewn byd busnes mae datblygu wedi bod – ond eto dim ond lan at ryw bwynt – y pethau amlwg, yr arwyddion, llenyddiaeth hyrwyddo, ayyb.

Gwelwyd newid yn y canfyddiad/agweddau siaradwyr Cymraeg tuag at fentro, busnes a materion cysylltiedig dros y deng mlynedd diwethaf – ar ddechrau’r 90au roedd siaradwyr Cymraeg yn fwy negyddol ar bob cyfri na gweddill y boblogaeth – erbyn diwedd y degawd mae’r sefyllfa wedi newid.

Erbyn hyn hefyd mae llawer yn gweld cyfleoedd neu feysydd masnachol sydd â’r potensial i wireddu’r cyswllt iaith-economi (fel twristiaeth, sectorau iaith-gysylltiol,

aml gyfryngol, celfyddydol, ayyb).

O ran cyd-destun eang yr ugain mlynedd nesaf rhaid ystyried:-

Economi – beth bynnag bydd ei raddfa yn y pendraw, mae'r chwyldro'n cychwyn o ran newid seiliau economaidd dan bwysau newidiadau technolegol (a llawer o dueddiadau eraill), sy'n golygu nad adnoddau ffisegol (glo, olew) na chyfalaf traddodiadau (tir, eiddo) yw'r unig ffactorau sy'n penderfynu ar iechyd economaidd. Gwêl rhai mai adnoddau bobl (creadigrwydd, sgiliau cyfathrebu, mentergarwch eang a blaengaredd) fydd yn tra-arglwyddiaethu o ran mantais economaidd yn y dyfodol.

Poblogaeth – newid cyd-bwysedd oedran a chynnydd mewn symudoledd (wedi'u cyfuno gyda'r pwynt blaenorol) yn creu'r angen am fodelau newydd o ddatblygu economaidd – e.e. wrth ystyried datblygu economaidd cymunedol beth y'n ni'n golygu wrth cymuned?

Mae llawer o ffactorau eraill wrth gwrs fel Cynaladwyedd sy'n allweddol.

Newidiadau sefydliadol – Mae sefydlu CCC yn ei hun yn creu fframwaith newydd i bob maes gweithgaredd – ac yn arwain at esblygu yng nghyfeiriad y cyrff gweithredol economaidd, ac ail ystyried materion fel Polisïau Cynllunio, a Cynaladwyedd.

Golyga'r newidiadau hyn bod cyfle newydd i integreiddio polisïau economaidd – cymdeithasol â ieithyddol.

## 7. Cyfleoedd

Yn ogystal â'r fframwaith bolisi, mae angen chwilio'n fwriadol am gyfleoedd i ychwanegu gwerth at ddatblygu economaidd – h.y. cynyddu a gwella ansawdd ei effaith, ac ar yr un pryd ychwanegu gwerth at ddatblygu ieithyddol. Er enghraifft wrth ystyried yr angen i fanteisio ar yr Economi Wybodaeth, yn ogystal â sgiliau technegol (gwyddonol, peirianyddol, a chyfrifiadurol) mae angen sgiliau llai amlwg fel creadigrwydd, a dychymyg. Yn draddodiadol mae'r sgiliau yma'n uchel eu blaenoriaeth yn y byd Cymraeg, ond mewn cyd-destun hollol wahanol (llenyddiaeth a'r celfyddydau'n ehangach). Tybed oes modd pontio'r meysydd hyn yn fwriadol – er mwyn gwella ansawdd a chyflymu ein gallu yn gyffredinol i fanteisio ar y

tueddiadau economaidd hyn, tra'n cysylltu'r Gymraeg â'r holl broses?

Byddai modd chwilio'r cyfleoedd hyn yn greadigol mewn ffordd sy'n integreiddio â thueddiadau eraill fel:

1. Datblygu gallu bobl Cymru ei hunain i wella ansawdd eu gweithgaredd economaidd
7. Targedu sectorau â photensial arbennig i'r dyfodol
7. Y sectorau preifat a chyhoeddus yn mynd ati ar y cyd i ddatblygu sectorau a chyfleoedd mewn ffyrdd rhagweithiol
7. Datblygu'r ffocws ar fagu sgiliau newydd
7. Ail-asesu ac integreiddio datblygiadau mewn adeiladwaith a defnydd tir ac eiddo.

Beth sydd ei angen yw cydnabyddiaeth o'r cyfleon posib hyn (yn ogystal â'r oblygiadau cadarnhaol posib o ran polisi economaidd a ieithyddol). Ond hefyd bydd rhaid sicrhau bod y cyfrwng i weithredu y cyfeiriad yma'n bodoli.

7. **Y Dimensiwn Daearyddol**

Yn ychwanegol at yr ystyriaethau uchod bydd angen sicrhau bod y dimensiwn daearyddol yn rhan o'r broses o gynllunio'r dyfodol.

Mewn un cyd-destun (mae eraill wrth gwrs) mae'r cyswllt â ardaloedd gwledig yn ffactor.

Mae llawer astudiaeth wedi disgrifio cyflwr yr economi mewn ardaloedd mwy gwledig o Gymru – mae un o'r diweddaraf (Pwyllgor Amaeth a Datblygu Gwledig CCC Adolygiad o Arallgyfeirio Economaidd yr Economi Wledig) yn crynhoi'r sefyllfa:

"… Mae ganddo poblogaeth oedrannus sydd yn heneiddio, allbwn is na gweddill Cymru, cynhyrchedd is, cyflogau is, graddfeydd is o fusnesau newydd a rhai sy'n goroesi, a sylfaen sgiliau sydd angen addasu i anghenion yr economi fodern. Mae amaethyddiaeth, sylfaen draddodiadol yr economi wledig, yn parhau'n arwyddocaol ond mae'r dirywiad tymor hir o ran cyflogaeth a incwm wedi dod yn fwy amlwg yn y blynyddoedd diwethaf."

Mae tystiolaeth anffurfiol yn tanlinellu:

1. Cynydd mewn allfudo gan bobl ifanc. Yn draddodiadol bu bobl ifanc yn gadael am addysg uwch, ond mae'r tueddiad yn ymddangos fel pe bai'n gynyddol yn effeithio ar ystod ehangach o bobl ifanc. (Bydd rhaglen Llwybro y WDA yn darparu dealltwriaeth dyfnach o'r ffactorau gwaelodol).
7. Newid sy'n cyflymu yn natur cymunedau gwledig. Mae'n ymddangos bod pobl yn

teithio ymhellach i weithio a chymdeithasu. Ymddengys bywyd mewn cymunedau gwledig yn fwy trefol ei natur (‘fel byw mewn dinas a mwy o fylchau rhwng pobl"). Mewn un cenhedlaeth yn y dyfodol gallai’r ymlyniad traddodiadol i gymuned pentre gael ei drawsnewid.

Mae’r cyd-perthynas rhwng gwlad a thref yn gyffredinol yn ffactor bwysig.

*"… Ideas of the country and the city, continue to act as partial interpreters. But we do not always see that in their main bearings they are forms of response to a social system as a whole … our powerful images of country and city have been ways of responding to a whole social development. This is why, in the end, we must not limit ourselves to their contrast but go on to see their interrelations."*

*(Raymond Williams)*

Fel gafodd y Chwyldro Diwydiannol effaith anferthol ar fywyd gwledgi, felly bydd y Chwyldro Gwybodaeth a Chyfathrebu yn hefyd – mewn ffyrdd y gallwn ond ddychmygu ar hyn o bryd.

Mewn astudiaeth arwyddocaol ar sectorau gwybodaeth-gysylltiol yn yr UDA (Competing in the age of talent, Quality of place in the new economy – Richard Florida 2000) roedd rhai o’r prif gasgliadau’n cynnwys:

1. *"In the new economy, regions develop advantage based on their ability to quickly mobilize the best people resources, and capabilities required to turn innovations into new business ideas and commercial products. The nexus of competitive advantage has thus shifted to those regions that can generate, retain, and attract the best talent;*
1. *Quality-of-place – vital in attracting knowledge workers and in supporting leading-edge high technology firms*
1. *Knowledge workers also express a strong preference for progressive regions that are youth-oriented and supportive of demographic diversity."*

Mae adolygiad presennol y CCC o Bolisïau Cynllunio yn rhoi cyfle i ail-ystyried yng nghyd-destun y tueddiadau hyn.

Felly, o ystyried y ffactorau hyn, mae angen clir am ymgais fwriadol i sicrhau’r manteision mwyaf o botensial TGCh o fewn cyd-destun sy’n toddi’r rhwystrau canfyddiadol a’r gwahaniaethau rhwng bywyd gwledig a threfol yng Nghymru, ac sy’n creu modelau newydd o fyw a gweithio mewn ardaloedd gwledig sydd eu hunain yn ddeniadol i bobl ifanc (yn ddeinamig, cyffrous, blaengar a magnetig).

Byddai rhai o’r ymatebion ymarferol felly yn cynnwys (enghreifftiau yn unig, nid rhestr gyflawn).

1. Sefydlu proses datblygu rhagweithiol o gyfleoedd gwerth uchel
7. Creu sustem barhaol (gan ddysgu gwersi o raglen Llwybro’r WDA) o gadw cysylltiad â phobl ifanc sy’n symud (tu fewn a thu allan i Gymru)
7. Cyplysu dulliau o ragweld yr angen am sgiliau gan gynnwys rhai ieithyddol â anghenion cyflogwyr â diddordebau bobl ifanc
7. Datblygu modelau newydd o weithio sy’n cydnabod tynfa Caerdydd, ond eto sy’n galluogi rhannu amser rhwng y brif-ddinas â prif leoliad ardaloedd gwledig
7. Archwilio ffyrdd o gryfhau’r dynfa i bobl ifanc i fannau eraill
7. Cydnabod rôl uniongyrchol y sector gyhoeddus yn yr economi, o ran lleoliad gwaith, ac o ran pryniant gan gwmnïau yng Nghymru.

Byddai’r math yma o ddatblygiadau yn tyfu’n rhan annatod o’r agenda datblygu gwledig.

Dylid pwysleisio mai un enghraifft sydd yma o’r math o weithredu posib – nid ydym yn awgrymu mai ystyriaethau daearyddol gwledig yw’r unig rai.

**Yn hytrach na bod y Gymraeg yn ystyriaeth ymylol i’r math yma o agenda, mae angen sicrhau ei fod yn ganolog – achos bod yr ymateb gweithredol ymarferol i’r holl anghenion hyn yn debyg o fod yn fwy effeithiol (yn economaidd ac yn gymdeithasol, yn ogystal ag yn ieithyddol).**

7. **Sgiliau a hyfforddi**

Nodwyd eisoes y cyswllt rhwng sgiliau â’r ystyriaethau eraill (3 a 4).

Ond hefyd mae angen manteisio ar y cyfle i gyplysu â datblygiad sgiliau, cefnogaeth gyrfaoedd, a hyfforddi yn gyffredinol. Mae’r broses o ffurfio polisïau o fewn ELWa a Gyrfa Cymru yn amserol ac yn galluogi cydblethu ystyrlon o ran ystyriaethau yngln â’r Gymraeg.

Mae profiad y WDA (Llwybro) a Menter a Busnes (Gorwelion – rhaglen sy’n nodi angen cyflogwyr am sgiliau o bob math gan gynnwys rhai ieithyddol) yn dangos bod modd creu gweithredu ymarferol (yn ogystal â pholisi) mewn ffordd sy’n cryfhau’r gweithgaredd ei hun ac yn cyplysu’r ystyriaethau ieithyddol.

7. **Defnydd Iaith**

Dylid sicrhau bod y broses o gynllunio datblygu economaidd (o ran polisi a gweithredu) yn ystyried y Gymraeg fel rhan annatod o’r cyfan – yn wir yn ei weld fel

ased â photensial. Felly byddai'r rhaglenni cyffredinol, a'r cynlluniau penodol sy'n pontio economi/iaith yn fwriadol, yn sicrhau bod y defnydd o'r iaith yn tyfu'n rhan o'r cyfan – yn hytrach nag yn broses ar wahân o bespectif cwmnïau a gweithredwyr. Byddai felly'n llawer fwy effeithiol i'w wau mewn i'r cyfan.

7. **Y Ffordd Ymlaen?**

1. **Anghenion cyffredinol**

Bydd angen sicrhau bod datblygu ieithyddol yn cydweithio'n ystyrlon â'r prosesau canlynol:-

1. Polisi – o fewn y CCC bydd angen ystyried wrth drafod y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol sut gall y Gymraeg gyfrannu at ei lunio a'i wireddu, mewn modd ystyrlon integredig a chreadigol. (Yn ehangach wrth gwrs bydd modd gwreiddio'r un broses o ran holl agweddau ar waith CCC.)
7. Strategaeth a gwaith cyrff gweithredol sy'n ymwneud â datblygu economaidd – WDA, ELWa, Awdurdodau Lleol, Bwrdd Croeso, Gyrfa Cymru, ac eraill cysylltiol.

1. **Ffocws Ychwanegol**

Yn ogystal â'r anghenion cyffredinol hyn bydd angen cyfrwng penodol i archwilio'n fanwl a datblygu rhai o'r posibiliadau a godwyd yn gynt yn y papur hwn (ac eraill yn dilyn ystyriaeth fanwl). Byddai angen:

1. Y modd i wireddi'r cyfleoedd gan gyfuno budd economaidd a ieithyddol mewn ffordd gyfannol, gan gyfrannu'n ymarferol at nod a strategaeth y cyrff gweithredu economaidd a ieithyddol
7. I'r cyfrwng gweithredol hwn dyfu o'r agenda datblygu economaidd – o bolisïau CCC ac yn benodol o gynlluniau'r cyrff gweithredu unigol
7. Cyplysu elfennau o strategaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n ymwneud â'r economi – fel bod y Bwrdd yn cyfuno'i ymdrechion gyda'r cyfeiriad newydd
7. Creu'r fframwaith wybodaeth a dealltwriaeth o ran y cyswllt iaith a economi a'i gyfuno â'r broses o gynllunio i'r dyfodol.
7. Datblygu dull o gyfrannu elfennau uchod gyda ffordd o weithredu fel datblygydd a gweithredydd – fel labordy ymarferol. Bydd rhaid bod yn medru cymeryd risg wrth weithredu. Bydd y ffordd yma o'i weithredu yn integreiddio'n ystyrlon gyda chyrff economaidd ar un llaw a gyda'r cyrff ieithyddol (Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Mentrau Iaith) ar y llaw arall.

Bydd modd sicrhau cyfraniad at nod a gweithredu'r cyrff yma, a chreu cyfrwng i weld y gweithgaredd newydd sy'n llwyddo yn cael eu mabwysiadu'n llawn o fewn eu prif ffrwd o waith.

1. **Ystyriaethau ymarferol**

Mae’n ymddangos bod sawl modd o wireddu’r Anghenion Cyffredinol a’r Ffocws Ychwanegol (7.1, 7.2)

1. Sefydlu’r angen i gyd-drafod dan arweiniad CCC. Gellid cyd-gynllunio a sicrhau gweithredu gan pa bynnag gyrff sy’n berthnasol. Yn ymarferol bydd y proses o bontio rhwng yr economaidd â’r ieithyddol yn dibynnu ar gyswllt rhwng sawl corff ar sawl lefel. Gall pob corff gomisiynu neu weithredu elfennau penodol. Mae’n debyg y byddai’r math yma o broses yn addas ar gyfer Anghenion Cyffredinol.

7. Creu corff newydd sy’n cael ei ariannu’n uniongyrchol gan CCC i weithredu’r holl elfennau o fewn Anghenion Cyffredinol a Ffocws Ychwangol. Mae’r gwendidau amlwg gyda’r opsiwn yma yn cynnwys diffyg eglurder yngln â rôl ddaearyddol y corff, a’i berthynas gyda’r cyrff economaidd a ieithyddol

7. Sefydlu cyfrwng gweithredol ar y cyd – gyda’r cyrff economaidd yn cyd-ariannu ymateb cyfansawdd ar un llaw (yn cydorwedd a’u strategaethau unigol), a Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar y llaw arall yn ychwanegu gwerth at y broses o ran yr agenda ieithyddol. Ni fyddai’r dull yma’n addas o ran yr Anghenion Cyffredinol (mae angen i bob sefydliad gydnabod ei gyfrifoldeb dros y maes). Ond o ran y Ffocws Ychwanegol byddai’n addas iawn, yn cyfuno sgiliau a phrofiad economaidd a ieithyddol, mewn cyfrwng hyd braich a fyddai’n integreiddio’r amrywiol agweddau, a fyddai’n medru cymeryd y risg a bwydo ei brofiad mewn i’r prif ffrwd.

Dyma fodel posib i Ffocws Ychwanegol (7.2.)

Bydd angen o hyd ddiwallu anghenion cyffredinol a ddisgrifir (7.1.)

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| - | | | **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** | | | | | — | | |
| | | | | | | | | | | |
| | **WDA** | | | **Cyfrwng integredig ymarferol i ddatblygu a gweithredu<br><br>(gweler 7.2)** | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | **ELWa** | - | | | | |
| | | | | | | |
| | **Llywodraeth Leol** | - | | - | **ByIG** | |
| | | | | | | |
| | **Bwrdd Croeso** | - | | | | |
| | | | | | | |
| | **Gyrfa Cymru** | - | | | | |

1. **Trafodeth**

   Yn naturiol dim ond ystyriaethau cychwynnol sydd yma. Gobeithio bydd cyfle i drafod a chyfrannu at y broses o ddatblygu syniadau ymarferol yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad.